# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin y Gromlech - Dyffryn Ardudwy**

**Safle Ysgol Gynradd Dyffryn Ardudwy**
**Dyffryn Ardudwy**
**LL44 2EP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Mercher, 15 Mai 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Lleolir Cylch Meithrin y Gromlech yn ei adeilad ei hun wrth ymyl yr ysgol gynradd yn Nyffryn Ardudwy, Gwynedd. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ofalu am hyd at 24 o blant ar unrhyw un adeg, ac mae ar agor rhwng 8:50am a 12:50pm o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor yr ysgol.  Mae gan y safle ei gyfleusterau ei hun ac ardal chwarae dan do wedi'i hamgáu. Mae'r gwasanaeth yn cael cyllid i ddarparu addysg y blynyddoedd cynnar ac o ganlyniad caiff ei arolygu gan Estyn. Gwenfair Williams yw'r person cofrestredig, a Natalie Walsh yw'r person â chyfrifoldeb. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu ‘Cynnig Rhagweithiol’ Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn hapus, yn teimlo'n gyfforddus yn mynegi eu barn ac maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff a'i gilydd. Mae'r staff yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ac maent yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r adnoddau o ansawdd da ac mae pob ardal yn groesawgar ac yn ddiddorol i'r plant. Mae'r arweinwyr yn sicrhau y caiff pob perygl i ddiogelwch y plant ei nodi, ac y caiff mesurau eu rhoi ar waith i leihau neu ddileu'r rhain, fel y bo'n briodol. Meithrinwyd cydberthynas dda rhwng y rhieni a'r partneriaid allanol, a rhennir gwybodaeth yn effeithiol.

### 2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad diwethaf, prynwyd adnoddau a dodrefn newydd ac mae'r ardal awyr agored wedi cael ei datblygu fel bod yr amgylchedd yn groesawgar ac yn addas i anghenion y plant.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom rai argymhellion yn ymwneud â dwy agwedd ar gadw cofnodion a datblygu ansawdd yr adolygiad o ofal ymhellach.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus, wedi setlo ac yn mwynhau mynd i'r cylch meithrin. Maent yn teimlo'n hyderus i fynegi eu barn, a gallant wneud dewisiadau a dilyn eu diddordebau fel y dymunant. Mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'r staff a'r plant eraill ac yn mwynhau'r gweithgareddau chwarae sydd ar gael iddynt. Mae'r plant yn cael cyfleoedd i ddysgu bod yn annibynnol a meithrin sgiliau hunangymorth.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Gall y plant fynegi eu hunain ac maent yn teimlo'n gyfforddus wrth wneud hynny.

Roedd y plant yn mynegi eu safbwyntiau a'u barn yn hyderus yn ystod amser cylch ac roeddent yn awyddus i gymryd rhan, gan rannu eu profiadau a chynnig syniadau wrth wrando ar stori. Roedd pob ymgais i gyfathrebu â'r staff yn cael ei werthfawrogi, ac roedd y plant yn teimlo'n hyderus y byddai'r staff yn gwrando arnynt. Roedd y plant yn gallu gwneud penderfyniadau ynghylch beth roeddent am ei wneud ac yn symud yn rhydd o amgylch y gweithgareddau a oedd ar gael. Roedd hyder ganddynt hefyd i fynegi'r hyn roeddent am ei gael a'r hyn roedd ei angen arnynt. Er enghraifft, dywedodd un plentyn ei fod am baentio a chafodd gymorth ar unwaith i fynd i nôl ffedog a dewis lliw paent. Gofynnodd un arall am help i fynd i nôl y blociau Duplo, a chafodd gymorth i wneud hyn.

Mae'r plant yn mynegi eu safbwyntiau yn hyderus, ac maent yn gwybod y bydd y staff yn gwrando arnynt.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn hapus ac wedi meithrin cydberthnasau agos â'r staff, sy'n adnabod pob un ohonynt yn dda.

Roedd y plant yn hapus ac yn gyfforddus yn eu hamgylchedd. Roedd y plant yn gyfarwydd â'r gweithgareddau a oedd ar gael a'r drefn ddyddiol, ac roeddent wedi meithrin cydberthnasau agos â'r staff. Roedd y plant yn gwybod y gallent ofyn am help gan y staff pan oedd ei angen arnynt. Er enghraifft, dechreuodd un plentyn beswch ar ôl bod yn rhedeg o amgylch y tu allan, ac aeth i gael cysur gan aelod o'r staff, a ymatebodd ar unwaith i'w anghenion. Roedd y plant yn hyderus i ddod atom a siarad â ni am yr hyn roeddent wedi ei wneud gartref; roedd un plentyn yn awyddus i ddangos ei waith celf i ni a daeth un arall â llyfr i'w ddangos i ni gan ddweud beth roedd yn hoffi chwarae ag ef. Roedd hyn yn dangos bod y plant yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd.

Mae'r plant wedi setlo, yn fodlon eu byd ac yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dechrau meithrin cyfeillgarwch ac yn dysgu i gydweithredu â'i gilydd.

Roedd y plant yn hapus i gymryd eu tro a rhannu adnoddau, ac roeddent yn mwynhau gwneud pethau gyda'i gilydd. Er enghraifft, yn ystod amser cylch roeddent yn aros yn amyneddgar am eu tro i fynd i chwilio am eitem yn yr ystafell chwarae a oedd o siâp neu liw arbennig. Wrth chwarae yn yr awyr agored, roedd y plant yn sefyll mewn rhes ac yn aros yn amyneddgar am eu tro i gerdded ar hyd 'wal' roeddent wedi ei chreu gan ddefnyddio cratiau plastig. Roeddent yn llawn cyffro wrth wylio eu ffrindiau yn cymryd eu tro ac yn gweiddi hwrê wrth iddynt gyrraedd yr ochr arall. Roeddent yn mwynhau chwarae gyda'u ffrindiau ac yn awyddus i gynnwys ei gilydd mewn gweithgareddau. Er enghraifft, roedd dau blentyn yn chwarae gyda'i gilydd gyda'r blociau adeiladu. Roeddent yn sgwrsio'n hapus gyda'i gilydd ac yn dweud wrth ei gilydd sut i adeiladu castell, gan ddefnyddio'r tŵls tegan i 'drwsio' rhannau.

Mae'r plant yn cydweithredu'n dda ac yn mwynhau cwmni ei gilydd.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Gall y plant ddewis a chymryd rhan yn y gweithgareddau maent yn eu mwynhau.

Roedd gan y plant ddiddordeb yn y gweithgareddau dan sylw, ac roeddent yn brysur ac yn dangos diddordeb drwy gydol y sesiwn ac yn cael eu cymell yn naturiol i archwilio'r adnoddau a oedd ar gael. Er enghraifft, roedd tri phlentyn yn chwarae mewn ffordd ddychmygus gyda'r ceir bach a'r mat ffordd. Roeddent yn cydweithredu'n dda ac yn sgwrsio â'i gilydd wrth iddynt rolio eu ceir ar hyd y ffordd mewn llinell. Roedd llawer o chwerthin a sgwrsio hapus wrth iddynt fwynhau esgus gwneud i'r ffigyrau 'groesi'r ffordd' a gwneud i'r ceir aros wrth y goleuadau traffig. Chwaraeodd grŵp o blant am gyfnod estynedig ynghanol y cerrig crynion. Roeddent wedi ymgolli yn eu chwarae ac yn cael llawer o hwyl wrth edrych am gerrig llyfn, neu *'wyau dinosor'* yn eu barn nhw. Defnyddient rawiau a chloddwyr tegan i chwilio yn y cerrig crynion gan sgwrsio'n frwdfrydig â'i gilydd wrth wneud hynny. Roeddent yn llawn cyffro bob tro roeddent yn dod o hyd i *'wy'* ac yn awyddus i ddangos i'r staff ac i ni yr hyn roeddent wedi ei ddarganfod.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae, ac yn dangos diddordeb yn y profiadau a ddarperir iddynt ac yn gallu canolbwyntio'n dda

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i ddilyn eu diddordebau eu hunain ac i ddysgu bod yn annibynnol.

Rhoddwyd cyfleoedd i'r plant arwain a chyfeirio eu chwarae a chawsant eu cymell yn naturiol i ddewis gweithgareddau yn ôl eu dymuniad. Storiwyd yr adnoddau mewn ffordd a oedd yn galluogi'r plant i gael gafael arnynt yn hawdd ac yn annibynnol. Roedd y plant yn cael eu hannog i dacluso ar ddiwedd gweithgareddau ac yn ystod amser byrbryd ac roeddent yn gallu cwblhau

gweithgareddau hunangymorth yn annibynnol. Gwnaeth *'Helpwr Heddiw'* helpu i gwblhau siart ddyddiol o'r tywydd a dosbarthu'r ffrwyth adeg byrbryd, gan annog annibyniaeth.

Mae'r plant yn cael amrywiaeth o brofiadau sy'n eu galluogi i feithrin eu sgiliau a dilyn eu diddordebau.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau am gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach ac yn rhoi polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth ar waith yn briodol. Maent yn annog ymddygiad cadarnhaol ac yn sicrhau y gosodir ffiniau clir i'r plant. Mae'r staff yn ymwybodol o anghenion unigol y plant ac yn sicrhau y cânt eu diwallu.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn deall eu dyletswyddau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

Roedd y dogfennau a welsom yn dangos eu bod wedi cael eu hyfforddi ar ddiogelu plant ac roedd y staff yn gallu dweud wrthym y gweithdrefnau cywir i'w dilyn pe byddai ganddynt bryder am blentyn. Roedd gan y staff hefyd gymwysterau cymorth cyntaf pediatrig cyfredol, gan olygu eu bod yn gallu ymdrin ag argyfyngau a mân anafiadau. Roedd unrhyw ddamwain yn cael ei dogfennu'n briodol, ei dyddio a'i llofnodi gan y staff a chan riant neu warcheidwad. Roedd y cofnodion yn dangos bod driliau tân wedi'u cynnal yn rheolaidd, gan sicrhau bod y plant a'r staff yn gwybod sut i adael yr adeilad yn ddiogel mewn argyfwng.

Roedd y staff yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw drwy roi byrbrydau llawn maeth i'r plant, a threfnu digon o weithgareddau ymarfer corff yn yr awyr agored, gan sicrhau bod cyfleoedd ganddynt i wneud ymarfer corff a chael awyr iach. Roedd y staff yn annog ac yn cefnogi'r plant i olchi eu dwylo pan oedd angen, gan leihau'r risg o groeshalogi.

Mae'r staff yn ymwybodol o'u dyletswyddau ac yn dilyn gweithdrefnau'n effeithiol er mwyn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn annog y plant i ymddwyn yn briodol a dangos cwrteisi, drwy strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol.

Roedd y staff yn siarad â'r plant mewn ffordd gynnes ac annwyl. Ymdriniwyd ag unrhyw ddadlau neu ymddygiad amhriodol yn brydlon drwy gael y plant i ymddiddori mewn gweithgaredd arall ac egluro pam nad oedd hyn yn addas, mewn ffordd dyner. Roeddent hefyd yn modelu ymddygiad cadarnhaol ac yn helpu'r plant i ddysgu'r hyn a ddisgwylid ganddynt. Er enghraifft, roedd y staff yn egluro mewn ffordd dyner ond cadarn i'r plant pam na ddylent sefyll ar y gadair yn ystod amser byrbryd. Roedd y plant yn cael eu canmol drwy gydol y dydd ac yn cael sticeri am rannu adnoddau, cwblhau gweithgareddau a rhoi cynnig ar bethau newydd. Roedd y staff hefyd yn annog y plant i ddangos cwrteisi, gydag ambell i ysgogiad bach, a chawsant eu canmol am ddweud 'os gwelwch yn dda' a 'diolch'.

Mae cydberthynas gadarnhaol rhwng y staff a'r plant ac maent yn dangos esiampl dda ac yn defnyddio iaith briodol.

## 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn cynnig amgylchedd gofalgar ac yn cydnabod anghenion y plant.

Roedd y staff wrth law i annog y plant ac ateb cwestiynau a oedd yn eu galluogi i ddatblygu eu sgiliau a'u dealltwriaeth yn ystod gweithgareddau chwarae.  Gwnaed hyn mewn ffordd hamddenol a oedd yn gwneud i'r plant deimlo'n gartrefol. Roedd y staff yn holi cwestiynau a oedd yn briodol i lefel ddealltwriaeth y plant a chynigiwyd cymorth ac anogaeth ychwanegol i'r plant nad Cymraeg na Saesneg oedd eu hiaith gyntaf.

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn cydnabod eu hanghenion unigol. Roedd y staff yn gwybod pa blant y byddai angen mwy o gymorth arnynt i ganolbwyntio ar weithgareddau, ac yn darparu'r cymorth hwn yn unol â hynny. Roedd cynlluniau gweithgareddau yn amlinellu'r sgiliau a oedd yn cael eu targedu ym mhob un o saith maes y Fframwaith Cyfnod Sylfaen. Roedd cofnodion yn cael eu cadw o ddatblygiad pob plentyn, ac roedd y rhain yn cael eu cadw ynghyd â nodiadau arsylwi am eu cyflawniadau. Roedd llyfrau trysor hefyd yn cael eu creu ar gyfer pob plentyn drwy gasglu samplau o'u gwaith, ynghyd â CD unigol o ffotograffau o'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau. Roedd y rhain yn cael eu rhoi i'r rhieni wrth i'r plentyn adael y gwasanaeth.

Mae'r staff yn cynllunio gweithgareddau priodol ac yn rhoi cymorth i ddiwallu anghenion y plant a'u helpu i ddatblygu.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd diogel a bod risgiau'n cael eu lleihau, lle y bo'n bosibl. Mae'r adnoddau o ansawdd da ac mae pob ardal yn groesawgar ac yn ddiddorol i'r plant. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar yn addas ar gyfer helpu datblygiad y plant.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r arweinwyr yn blaenoriaethu diogelwch y plant ac yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn dilyn gweithdrefnau yn unol â hynny.

Roedd y drysau i'r safle ar glo a gofynnwyd i ni ddangos prawf adnabod wrth i ni gyrraedd y safle. Roedd hyn yn atal mynediad heb awdurdod, gan sicrhau bod y plant yn ddiogel. Mae mesurau priodol ar waith gan y staff i gadw'r plant yn ddiogel mewn argyfwng gan fod cofnodion cywir o bresenoldeb bob dydd yn cael eu cynnal. Roedd yr arweinwyr wedi nodi peryglon ar y safle ac roedd y rhain wedi'u cynnwys mewn asesiadau risg ysgrifenedig cynhwysfawr, yn dangos sut roedd risg yn cael ei rheoli, a lle bo'n bosibl, ei dileu. Roedd y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u diwygio yn ôl yr angen. Fodd bynnag, roedd ffedogau plastig yn cael eu storio ar sil y ffenestr o fewn cyrraedd y plant, a oedd yn creu perygl o dagu. Gwnaethom siarad â'r person â chyfrifoldeb, a nododd mai esgeulustod ar ran y gweithwyr cynnal a chadw oedd hyn a oedd wedi eu symud er mwyn cwblhau gwaith dros y penwythnos. Cafodd y rhain eu symud i ardal storio ddiogel ar unwaith. Byddai cwblhau gwiriadau diogelwch dyddiol cyn i'r plant gyrraedd yn galluogi arweinwyr i sicrhau bod pob ardal yn ddiogel i'r plant ei defnyddio ac yn rhydd o beryglon posibl.

Mae gan yr arweinwyr fesurau priodol ar waith i leihau'r risgiau i ddiogelwch y plant.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn diwallu anghenion y plant.

Roedd yr arweinwyr wedi gwneud defnydd da o'r ardal dan do drwy osod adnoddau a dodrefn i greu ardaloedd dysgu yn unol ag egwyddorion y cyfnod sylfaen. Roedd yr ystafelloedd chwarae yn olau, yn lliwgar ac yn groesawgar. Roedd digon o le ac roedd eitemau yn cael eu storio a'u labeli'n dda â lluniau er mwyn i'r plant ddeall beth oedd wedi'i storio ym mhob bocs. Roedd y celfi a'r adnoddau i gyd yn diwallu anghenion y plant. Roedd y byrddau a'r cadeiriau ar yr uchder cywir ac roedd toiledau lefel isel ar gael i alluogi'r plant i'w defnyddio ac ymarfer sgiliau hunangymorth mor annibynnol â phosibl. Roedd y waliau'n lliwgar ac yn arddangos posteri a lluniau addysgol, er enghraifft siart o'r tywydd, llythrennau a rhifau. Roedd digon o samplau o waith y plant hefyd, a oedd yn gwneud iddynt deimlo eu bod yn perthyn yno. Roedd yr ardaloedd awyr agored yn rhoi digon o gyfleoedd i ddarganfod a chwarae i ddatblygu dychymyg y plant, yn cynnwys cegin fwd, ardal cerrig mân, ardal ar gyfer plannu ac ardal adeiladu.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn gysurus, yn groesawgar ac yn addas i anghenion y plant.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r cyfarpar?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar yn addas ar gyfer anghenion y plant.

Mae'r arweinwyr yn darparu teganau i'r plant sydd mewn cyflwr da ac sy'n addas ar gyfer oedran a chamau datblygiad y plant. Roedd adnoddau a chyfarpar addas ar gael i hybu annibyniaeth y plant, megis grisiau a seddi i gefnogi plant sy'n dysgu defnyddio'r toiled ac roeddent oll mewn cyflwr da a glân.

Roedd amrywiaeth o ardaloedd ar gael i'r plant eu darganfod, gan gynnwys cornel chwarae rôl, ardal adeiladu a chyfleoedd i ddarganfod deunyddiau naturiol. Roedd detholiad priodol o ddoliau a llyfrau amlddiwylliannol ar gael, yn hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac yn rhoi dealltwriaeth well i'r plant o'r byd o'u hamgylch.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod adnoddau addas ar gael i'r plant er mwyn iddynt allu cyflawni gweithgareddau yn annibynnol.

# 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

## Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn cyfathrebu eu gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth yn dda. Cymerwyd camau i gasglu adborth a gwella arferion. Mae partneriaethau da wedi'u meithrin gyda phartneriaid er mwyn gwella canlyniadau i'r plant a sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu diwallu.

## Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau y cydymffurfir â'r polisïau a'r gweithdrefnau a'u bod yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Roedd y staff yn ymwybodol o bwysigrwydd gweithio yn unol â pholisïau'r gwasanaeth ac yn eu rhoi ar waith yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Er enghraifft, gwelsom fod y staff yn dilyn y polisi rheoli ymddygiad drwy ddefnyddio dulliau cadarnhaol a thechnegau tynnu sylw i reoli ymddygiad amhriodol. Roedd yr holl bolisïau a ddarllenom yn briodol ac wedi cael eu hadolygu. Mae rhai polisïau wedi cael eu hadolygu ym mis Chwefror 2018, ond nid yw rhai eraill wedi cael eu hadolygu ers mis Tachwedd 2017. Gwnaethom atgoffa'r person â chyfrifoldeb o'r angen i adolygu'r rhain bob blwyddyn.

Clywsom y staff yn siarad Cymraeg drwy gydol y dydd, gan gynnig cymorth yn Saesneg hefyd i'r plant nad oeddent yn deall Cymraeg. Roedd yr arweinwyr a'r staff i gyd yn ymrwymedig i ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y polisïau a'r dogfennau angenrheidiol ar waith ond mae angen iddynt sicrhau y cânt eu hadolygu'n flynyddol a'u bod yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr yn gofyn am adborth ar eu gwasanaeth gan y staff, y plant a'r rhieni er mwyn gwella eu gwasanaeth.

Roedd yr arweinwyr wedi casglu adborth oddi wrth y rhieni a'r plant. Roedd y staff yn gallu trafod eu safbwyntiau yn ystod cyfarfodydd staff a thrwy gwblhau holiaduron. Gofynnwyd i'r rhieni hefyd gwblhau holiaduron i gofnodi eu barn am y gwasanaeth. Roedd yr arweinwyr wedi defnyddio'r adborth hwn i lunio cynllun gweithredu er mwyn rhoi'r newidiadau ar waith a gwella arferion yn seiliedig ar yr adborth a dderbyniwyd ac unrhyw feysydd eraill a nodwyd i'w gwella. Fodd bynnag, nid oedd yn amlwg sut roedd safbwyntiau'r plant yn cael eu hystyried wrth gynllunio gwelliannau.

Mae'r arweinwyr yn ymrwymedig i wella eu gwasanaeth ac yn myfyrio ar eu hymarfer ond mae angen iddynt gynnwys safbwyntiau'r plant wrth gynllunio gwelliannau.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r rheolwyr yn awyddus i sicrhau bod y staff wedi'u hyfforddi'n dda ac yn cael cymorth er mwyn iddynt gyflawni eu rolau yn effeithiol.

Roedd ffeiliau'r ddau aelod o staff a welsom yn cynnwys yr holl wybodaeth a oedd yn ofynnol, gan ddangos bod yr arweinwyr yn dilyn proses recriwtio gadarn. Roedd y person â chyfrifoldeb a'r aelod o'r staff wedi cwblhau ffurflenni hunanwerthuso ac roedd arfarniadau blynyddol wedi cael eu cynnal ar gyfer y ddau, felly roeddent yn gallu awgrymu unrhyw hyfforddiant y byddent yn hoffi ei gael er mwyn gwella eu harferion. Nododd yr aelod o'r staff ei bod yn gallu mynd at y person â chyfrifoldeb unrhyw bryd i drafod unrhyw faterion neu anghenion o ran hyfforddiant a nododd y person â chyfrifoldeb ei bod yn gallu cwrdd yn rheolaidd â'r person cofrestredig a'r pwyllgor rheoli. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw gofnodion ffurfiol o unrhyw oruchwyliaeth 1:1 heblaw'r arfarniadau blynyddol. Dylai'r arweinwyr gadw cofnod o'r sesiynau hyn er mwyn cynllunio unrhyw hyfforddiant a sicrhau bod materion yn cael eu trafod a'u datrys.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn rheoli ac yn cefnogi'r staff yn ddigon da er mwyn gwella profiadau'r plant.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r arweinwyr yn rhannu gwybodaeth â'r rhieni yn effeithiol.

Gwelsom dystiolaeth wedi'i chofnodi o wybodaeth gan rieni yn nodi anghenion penodol eu plant, ynghyd â'u hoff bethau a'u cas bethau. Roedd y staff wedi meithrin cydberthynas gadarnhaol â'r rhieni ac yn rhannu gwybodaeth ar lafar ar ddiwedd pob sesiwn. Gwelsom y person â chyfrifoldeb a'r aelod o'r staff yn siarad â rhieni pan ddaethant i gasglu eu plant, gan rannu adborth gyda nhw a gofyn cwestiynau am y plant. Dywedodd y rhieni wrthym ei bod yn hawdd siarad â'r staff a bod eu plant yn mwynhau mynd i'r cylch meithrin. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn cael digon o wybodaeth ar lafar a thrwy dudalen cyfryngau cymdeithasol y gwasanaeth. Roedd y llawlyfr i rieni a welsom yn cynnwys digon o wybodaeth i sicrhau bod y rhieni yn deall y gwasanaethau a'r cyfleusterau a ddarperir er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o'r hyn y mae'r gwasanaeth yn ei gynnig cyn i'w plant ddechrau mynd yno. Dywedodd y person â chyfrifoldeb wrthym hefyd eu bod yn cael ymweliadau rheolaidd gan athro ymgynghorol o'r awdurdod lleol a chan swyddog cymorth o'r sefydliad ymbarél. Roedd tystiolaeth o hyn drwy gofnod o'r ymweliadau hyn yn y llyfr ymwelwyr.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn gweithio'n agos gyda'r rhieni a bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom yr argymhellion canlynol i'r arweinwyr eu hystyried:

- Rhoi rhestr wirio ddyddiol ar waith er mwyn gweld a oes peryglon mewn unrhyw ardal ac ymdrin â hwy cyn i'r plant gyrraedd;
- ceisio adborth gan blant a chynnwys eu safbwyntiau wrth gwblhau adolygiad o ansawdd y gofal;
- cadw cofnod o sesiynau goruchwylio'r staff yn ogystal ag arfarniadau staff.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau.

Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 13 Mawrth 2019 rhwng 9:25am ac 1:10pm.

Gwnaethom y canlynol:

- archwilio sampl o ddogfennaeth a pholisïau;
- arsylwi ar arfer a chwblhau sesiynau arsylwi er mwyn cael tystiolaeth o'r plant yn ymgysylltu â'r gofal a ddarperir gan y staff;
- siarad â'r plant, y staff, y person â chyfrifoldeb a thri rhiant;
- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddir gan y plant a'r adnoddau ar ddiwrnod ein harolygiad;
- rhoi adborth manwl i'r person â chyfrifoldeb dros y ffôn ar 25 Mawrth 2018 ar yr hyn a nodwyd gennym a'r materion y mae angen mynd i'r afael â nhw.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: https://arolygiaethgofal.cymru/

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Sesiynol** |
| **Person Cofrestredig** | **Janet Williams** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Lyn Bisseker** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **24** |
| **Ystod oedran y plant** | **2 ½ - 4 oed** |
| **Oriau agor** | **8:50 a.m. – 12:50 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor yr ysgol.** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **27 Tachwedd 2015** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **13 Mawrth 2019** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Naddo** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Do** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |